

PWYLLGOR SAFONAU

2 Mawrth 2022

Yn Bresennol: Mr John Daniels (Cadeirydd)
Mr P Davies, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd P Morgan, Dr R Plummer a Mrs V Tomlinson.

[Cyrrhaeddodd Ms W Taylor adeg ystyried eitem 2 Datgan Buddiannau.]

(Cyfarfod Rhithiol: 2.05pm – 2.35pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

2. Datgan Buddiannau

Ailddatganodd Dr R Plummer bod ganddi fuddiant personol cyffredinol ond nid rhagfarnus yng ngwaith yr Awdurdod er nad oedd hynny yn ymwneud yn benodol â'r eitemau oedd dan drafodaeth y diwrnod hwnnw.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24^{ain} o Chwefror 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

PENDERFYNWYD cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24^{ain} o Chwefror 2021.

4. Adroddiad Blynyddol y Swyddog Monitro 2021/22

Dechreuodd yr adroddiad drwy amlinellu cylch gorchwyl y Pwyllgor, a nodwyd yn y cyfarfod bod gwall argraffyddol ym mharagraff (d) ddylai fod wedi cyfeirio at Adran 71 (2) (b).

Aeth yr adroddiad ymlaen i amlinellu'r hyfforddiant a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn, ac eglurodd y byddai hyfforddiant llywodraethu ar y cyd â Chyngor Sir Penfro yn cael ei drefnu ar gyfer Aelodau newydd a benodir yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol fis Mai. Rhagwelwyd y byddai'r hyfforddiant hwn yn digwydd ar 17 Mai ac y byddai Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau hefyd yn cael eu gwahodd. Mewn ymateb i gwestiwn, nid oedd y Swyddog Monitro yn rhagweld problem o ran sicrhau bod y cyflwyniad ar gael i'r rhai na fyddai'n gallu bod yn bresennol. O ran yr hyfforddiant i'w ddarparu gan yr Awdurdod Safonau Cwynion, roedd hwn yn dal heb fod ar gael, a byddai'r adolygiad o'r weithdrefn gwyno yn cael ei ohirio hyd nes y byddai argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol (a gynhaliwyd gan Richard Penn) wedi'u gweithredu oherwydd goblygiadau posibl.



Nodwyd nad oedd unrhyw gais am oddefeb wedi'i wneud gan Aelodau'r Awdurdod. Fodd bynnag, atgoffwyd y Pwyllgor y byddai'r oddefeb gyffredinol bresennol a roddir i'r Aelodau hynny oedd hefyd yn Gynghorwyr Sir ar Gyngor Sir Penfro yn parhau tan yr etholiadau llywodraeth leol ar y 5^{ed} o Fai 2022. Byddai angen adnewyddu'r oddefeb o'r dyddiad y penodir Aelodau i'r APC. Yn unol â hynny, gwahoddwyd y Pwyllgor i gytuno i adnewyddu'r oddefeb. Gofynnwyd a oedd angen enwi Aelodau'r Cyngor Sir, yn hytrach na rhoi goddefeb iddynt i gyd fel un bloc, ac awgrymwyd i ddechrau y gellid rhoi'r enwau yn y cyfarfod nesaf, fodd bynnag cynigiwyd wedyn bod y Pwyllgor yn dirprwyo'r hawl i ganiatáu goddefeb i'r Swyddog Monitro, ac eiliwyd hynny. Dywedodd y swyddogion y byddai Aelodau newydd yn cael gwybod am fodolaeth yr oddefeb, ac yn cael hyfforddiant i'r perwyl nad oedd yr oddefeb yn drech nag unrhyw fuddiant personol neu ragfarnus allai fod gan yr Aelod yn y mater dan sylw.

Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol a gynhaliwyd yn 2021 gan Richard Penn, fyddai'n cael eu hystyried gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol. Roedd hyn wedi bod yn destun Cynhadledd Rithiol Safonau Cymru Gyfan a gynhaliwyd ar 9 Chwefror ac a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Swyddog Monitro. Un o argymhellion yr Adolygiad oedd creu Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Aelodau Annibynnol y Pwyllgorau Safonau, ac roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'r cyfryw Fforwm yn ddefnyddiol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro am ei adroddiad ac i'r Aelodau am eu presenoldeb.

Penderfynwyd:

- a) nodi'r adroddiad.
- b) awdurdodi'r Swyddog Monitro i ganiatáu goddefeb gyffredinol i Aelodau'r Awdurdod Lleol o ddyddiad eu penodi ar yr Awdurdod Parc Cenedlaethol hyd at yr etholiadau awdurdod lleol nesaf yn 2027.
- c) bod yr Aelodau yn awdurdodi'r APC i gefnogi creu fforwm ar gyfer Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau.

